# TGAU Cymraeg Iaith

# Uned 2

# Prawf Ddarllen

# 5 marc

**(2.5% o'r cymhwyster cyfan)**

Bydd yr adran hon yn cynnwys un dasg prawf ddarllen yn canolbwyntio ar ysgrifennu'n gywir. Yn y dasg fer hon byddwch yn prawf ddarllen a chywiro testun byr neu yn cywiro gwallau mewn cyfres o dasgau byrion.

Mae'r taflenni hyn yn cyflwyno'r mathau o wallau all ymddangos mewn papur arholiad.

# TGAU Cymraeg Iaith Uned 2 Prawf Ddarllen

cbac wjec

## Berfau

| **Berfenw/ gweithred** | **Amser/ Pryd?** | **Fi** | **Ti** | **Ef/Hi** | **Ni** | **Chi** | **Nhw** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweld** | gorffennol | gwel**ais** | gwel**aist** | gwel**odd** | gwel**on** | gwel**och** | gwel**on** |
| | presennol/dyfodol | gwel**af** | gwel**i** | gwêl | gwel**wn** | gwel**wch** | gwel**an(t)** |
| **Darllen** | gorffennol | darllen**ais** | darllen**aist** | darllen**odd** | darllen**on** | darllen**och** | darllen**on** |
| | presennol/dyfodol | darllen**af** | darllen**i** | darllen/darllen**a** | darllen**wn** | darllen**wch** | darllen**an(t)** |
| **Rhedeg** | gorffennol | rhed**ais** | rhed**aist** | rhed**odd** | rhed**on** | rhed**och** | rhed**on** |
| | presennol/dyfodol | rhed**af** | rhed**i** | rhed/rhed**a** | rhed**wn** | rhed**wch** | rhed**an(t)** |
| **Berfau Afreolaidd (nid ydynt yn dilyn y patrwm arferol)** | | | | | | | |
| **Mynd** | gorffennol | es | est | aeth | aethon | aethoch | aethon |
| | presennol/dyfodol | af | ei | aiff / â | awn | ewch | ân(t) |
| **Bod** | gorffennol | bûm | buost | bu | buon | buoch | buon(t) |
| | presennol/dyfodol | byddaf | byddi | bydd | byddwn | byddwch | byddan(t) |
| **Cael** | gorffennol | cefais | cefaist | cafodd | cawson | cawsoch | cawson |
| | presennol/dyfodol | caf | cei | caiff | cawn | cewch | cân(t) |

**Berfau a rhagenwau – cael y person yn gywir**

| ✗ | ✓ | |
|---|---|---|
| gwel**odd fi** | gwel**ais i** | gwel**odd ef/hi** |
| rhed**odd ti** | rhed**aist ti** | rhed**odd ef/hi** |
| aeth **nhw** | aeth**on nhw** | aeth **hi/ef** |
| eistedd**af ti** | eistedd**af i** | eistedd**a di** |
| roedd **fi** | roedd**wn i** | roedd **ef/hi** |
| roedd **nhw** | roedd**en nhw** | roedd **ef/hi** |

| **Treiglo ar ôl berf** |
|---|
| Gwelodd **gi** |
| Darllenais **l**yfr |
| Ysgrifennais **l**ythyr |
| Gwyliais **r**aglen |
| Tynnais **l**un |
| Ysgrifennodd **d**raethawd |
| Ciciodd **b**êl |

| **Rhagenwau blaen ac ôl** | |
|---|---|
| tŷ + fi | **fy** nhŷ i |
| tŷ + ti | **dy** dŷ di |
| tŷ + fo | **ei** dŷ ef |
| tŷ + hi | **ei** thŷ hi |
| tŷ + ni | **ein** tŷ ni |
| tŷ + chi | **eich** tŷ chi |
| tŷ + nhw | **eu** tŷ nhw |

| **Pa arddodiad?** | |
|---|---|
| ysgrifennu (ebost/llythyr) | ysgrifennu **at berson**<br>ysgrifennu **i gwmni/lle** |
| dweud | dweud **wrth** |
| gofyn | gofyn **i** |
| paid | paid **â** |

**Rhedeg arddodiaid**

| **i** | **unigol** | | **lluosog** | |
|---|---|---|---|---|
| **1** | i mi | (iddof fi x) | i ni | (iddyn ni x) |
| **2** | i ti | (iddot ti x) | i chi | (iddych chi x) |
| **3** | iddo fo<br>iddi hi | (i fo/fe x)<br>(i hi x) | iddyn nhw | (i nhw x) |

**Rhedeg arddodiaid**

| **gan** | **unigol** | **lluosog** |
|---|---|---|
| **1** | gen i | gennym ni |
| **2** | gennyt ti | gennych chi |
| **3** | ganddo fo/fe<br>ganddi hi | ganddyn nhw |

**Rhedeg arddodiaid**

| **o** | **unigol** | **lluosog** |
|---|---|---|
| **1** | ohonof fi | ohonom ni |
| **2** | ohonot ti | ohonoch chi |
| **3** | ohono fo/fe<br>ohoni hi | ohonyn nhw |

**Treiglo'n feddal ar ôl arddodiad**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **i + gweld** | i **w**eld | **ar + bwrdd** | ar **f**wrdd |
| **o + darllen** | o **dd**arllen | **at + cath** | at **g**ath |
| **am + cael** | am **g**ael | **dros + rhwystr** | dros **r**wystr |

# TGAU Cymraeg Iaith Uned 2 Prawf Ddarllen

| Y tabl treigladau | | | |
|---|---|---|---|
| **Treiglo ar ôl** → | **Treiglad Meddal**<br>**dy**<br>ei (bachgen)<br>am, ar, at, dan, dros,<br>drwy, hyd, heb, gan<br>un (benywaidd)/ dau / dwy<br>ar ôl ansoddair<br>enw ac ansoddair ar ôl yn<br>neu /pa /unrhyw/ naill / ychydig/<br>ambell<br>ansoddair ar ôl enw benywaidd<br>mor/ pan /ni | **Treiglad Trwynol**<br>**fy**<br>yn + enw lle<br>pum/ saith/ wyth/ naw<br>(e.e. naw niwrnod) | **Treiglad Llaes**<br>**ei** (merch)<br>tri / chwe<br>â/ tua / gyda/ efo<br>a /na/ ni / tra |
| **c** | dy **g**ar | fy **ngh**ar | ei **ch**ar |
| **p** | dy **b**en | fy **mh**en | ei **ph**en |
| **t** | dy **d**rwyn | fy **nh**rwyn | ei **th**rwyn |
| **g** | dy **w**ydr | fy **ng**wydr | |
| **b** | dy **f**rawd | fy **m**rawd | |
| **d** | dy **dd**afad | fy **n**afad | |
| **ll** | dy **l**aw | | |
| **rh** | dy **r**aw | | |
| **m** | dy **f**ochyn | | |
| Nid yw **ll** a **rh** yn treiglo ar ôl y /un/ yn/ mor/ cyn | | | |

| Cenedl enwau (gwrywaidd/ benywaidd) a chyfri | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Benywaidd | cerdd | un gerdd | dwy gerdd | tair cerdd | pedair cerdd |
| | llinell | un llinell | dwy linell | tair llinell | pedair llinell |
| | nofel | un nofel | dwy nofel | tair nofel | pedair nofel |
| Gwrywaidd | bardd | un bardd | dau fardd | tri bardd | pedwar bardd |
| | pennill | un pennill | dau bennill | tri phennill | pedwar pennill |
| | awdur | un awdur | dau awdur | tri awdur | pedwar awdur |

| **ac o flaen llafariaid** | **a o flaen cytsain** |
|---|---|
| ac **a**fal | a **ph**lentyn |
| ac **e**raill | a **ll**yfr |
| ac **a**nfon | a **ph**êl |
| ac **e**to | a **g**wên |
| | a **ch**eg |
| | a **ph**en |
| | a **th**rafod |
| | a **rh**edeg |

| Gwallau cyffredin | |
|---|---|
| ❌ | ✔ |
| i gyd o'r plant | y plant i gyd |
| eu gilydd | ei gilydd |
| mae o/e ddim | dydy o/e ddim |
| iddyf i | i mi |
| i fo/fe / i hi | iddo fo/fe / iddi hi |
| yn fynd | yn mynd (yn + gweithred = dim treiglad) |
| mae'n nhw / mae nhw | maen nhw |
| roedd fi | roeddwn i |
| Rydw i'n cael ci (i'm getting a dog) | Mae gen i gi (I have a dog) |